Partneriaeth CASCADE



Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

2025- 2026
Adroddiad blynyddol



Partneriaeth Seilwaith CASCADE

CASCADE ExChange SAIL DATABANK

Cardiff University Prifysgol Caerdydd — Centre for Trials Research / Canolfan Ymchwil Treialon

Cardiff University Prifysgol Caerdydd — School of Psychology / Ysgol Seicoleg


Cardiff University Prifysgol Caerdydd — School of Social Sciences / Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynnwys

1. Trosolwg y Cyfarwyddwr 4
2. Pwy yw pwy, llywodraethiant, partneriaethau 6
3. Crynodeb o'r flwyddyn 7
   - Uchafbwyntiau cyhoeddi 9
4. Themâu allweddol eleni 11
   - Meithrin 12
   - Cydweithio 18
   - Newid 22
5. Cynnwys y cyhoedd, ymgysylltu â nhw a lledaenu 25
   - Cynnwys y cyhoedd 26
   - Ymgysylltu â'r sector 28
6. Casgliad 30






1. Trosolwg y Cyfarwyddwr

Mae'n bleser ac yn fraint rhoi cyflwyniad i'n hadroddiad blynyddol. Fel cyfarwyddwr, rwyf eisoes yn ymwybodol o'r gwaith caled a'r cyflawniadau anhygoel sy'n nodweddu ein partneriaeth, ond mae eu gweld yn dod at ei gilydd mewn un lle yn gyfle i ryfeddu at y pethau cyffrous a phwysig y mae fy nghydweithwyr wedi bod yn eu gwneud dros y 12 mis diwethaf.

Yn ein diwrnod oddi cartref y llynedd, fe wnaethom geisio nodi'r hyn y mae CASCADE yn ymwneud ag ef, gan gytuno ar dri C: Cultivate (Meithrin), Collaborate (Cydweithio) a Change (Newid). Mae hyn yn golygu ein bod yn datblygu gallu trwy feithrin unigolion a sefydliadau. Rydym yn cydweithio ar draws a thu hwnt i'r bartneriaeth oherwydd bod cydweithio yn ein galluogi i wneud ymchwil ragorol a chyflawni newid. A newid yw diben creiddiol Partneriaeth CASCADE. Rydym yn ganolfan gymhwysol a'n nod yw gwneud y byd yn lle gwell, er mwyn gwella gofal cymdeithasol i blant.

Trwy gydol yr adroddiad hwn, fe welwch enghreifftiau o'r tri pheth hyn – o sefydlu canolfannau newydd cyffrous i ddylanwadu ar bolisïau'r llywodraeth, o ddyrchafiadau unigol i gyfraniadau at newidiadau i'r system gyfan. Rwy'n credu – yn fy marn i – ei fod yn werth ei ddarllen ac yn ysbrydoledig.

Mae hyn i gyd yn bosibl oherwydd y gwaith tîm eithriadol sy'n nodweddu gwaith y bartneriaeth. Rydym yn dod â chyfuniad o wybodaeth sector ac arbenigedd methodolegol ynghyd sy'n ein galluogi i wneud ymchwil ragorol. Trwy gydol ein gwaith, rydym yn ceisio rhoi lleisiau'r sawl sydd â phrofiad bywyd wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn rhedeg rhaglenni sylweddol o weithgareddau ymgysylltu â'r sector, mewn partneriaeth â'r rhwydwaith ExChange. Mae gennym hefyd dîm bach, ond rhagorol, i cynorthwyo wrth ysgrifennu ceisiadau a rheoli prosiectau.



Mae'r adnoddau hyn yn bosibl drwy gymorth a chyllid cyson, gan Lywodraeth Cymru, drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae ein cyllid seilwaith wedi caniatáu inni adeiladu canolfan â phroffil rhyngwladol sy'n anelu at wella gofal cymdeithasol plant yma yng Nghymru. Mae hefyd wedi ein galluogi i feithrin cysylltiadau â chanolfannau tebyg sy'n wahanol i unrhyw beth arall rwy'n ymwybodol ohono. Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen am y gwaith rydyn ni wedi bod yn ei wneud.

Donald Forrester
Cyfarwyddwr Partneriaeth CASCADE



Dyfarnwyd MBE i'r Athro Andy Pithouse am wasanaethau i addysg a pholisi gofal cymdeithasol, gan gydnabod gyrfa sydd wedi cael dylanwad parhaol ar ymchwil, polisi ac ymarfer gofal cymdeithasol yng Nghymru a thu hwnt. Mae Andy wedi bod yn gefnogwr hirsefydlog i'r ganolfan, gan gynnwys cyfrannu fel cyd-ymchwilydd ar un o astudiaethau cynnar CASCADE yn gwerthuso'r peilot rheng flaen ac yn cefnogi staff. Mae ei ymchwil ddylanwadol ar waith cymdeithasol fel 'masnach anweledig' yn parhau i lunio'r maes heddiw, tra oedd ei waith diweddarach gyda Llywodraeth Cymru wedi helpu i lywio deddfwriaeth gofal cymdeithasol bwysig yng Nghymru.



2. Pwy yw Pwy, Llywodraethu, Partneriaethau

Mae'r bartneriaeth yn dwyn ynghyd bedair canolfan ymchwil: CASCADE, CTR, SAIL ac Ysgol Seicoleg Prifysgol Caerdydd. Cawn ein harwain gan fwrdd llywodraethu sy'n cyfarfod bob chwarter – er bod llawer o'n hegni a'r syniadau newydd a gynhyrchir yn deillio o'r gwaith a wnawn gyda'n gilydd i ddatblygu a chyflawni prosiectau neu feysydd gwaith penodol, ac o'r diwrnodau i ffwrdd a'r seminarau rheolaidd.



Mae **Jonathan Scourfield** yn Athro Gwaith Cymdeithasol ac yn Ddirprwy Gyfarwyddwr CASCADE. Mae ganddo rôl allweddol yn y broses o ddatblygu ein gwaith o ran cysylltu data â gofal cymdeithasol plant.



Jo Parry yw Rheolwr Canolfan CASCADE, ac mae'n arwain y broses o ddarparu cymorth gwasanaethau proffesiynol mewn modd effeithlon ledled y Bartneriaeth.



Mae **Mike Robling** yn Athro a Chyfarwyddwr Treialon Iechyd y Boblogaeth yn y Ganolfan Treialon Ymchwil. Mae'n arwain cyfraniad y Ganolfan Treialon Ymchwil ac mae ganddo rôl allweddol o ran datblygu dulliau gwerthuso cymhleth ac arloesol ar gyfer gofal cymdeithasol i blant.



Mae **Martin Elliott** yn Uwch-gymrawd Ymchwil ac yn Arweinydd Academaidd Strategol ar gyfer Gwaith Cydraddoldeb, gan gefnogi ymchwil sy'n archwilio anghydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol a chanlyniadau teg ar draws gofal cymdeithasol plant.



Louise Roberts yw'r Arweinydd Academaidd Strategol ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd, sy'n arwain gwaith CASCADE o sicrhau bod profiad bywyd yn parhau i fod yn ganolog i'r broses o ddylunio ymchwil, ei chyflwyno, a'r effaith mae'n ei chael.



Athro Gwaith Cymdeithasol Plant a Theuluoedd a Chyfarwyddwr CASCADE yw **Donald Forrester**. Mae hefyd yn Gyfarwyddwr Partneriaeth CASCADE ac mae'n gyfrifol am oruchwylio ei holl waith.



Mae **Lucy Griffiths** yn Athro ym Mhrifysgol Abertawe ac yn Gyd-gyfarwyddwr YDG Cymru, sy'n arwain ymchwil academaidd sy'n canolbwyntio ar iechyd plant a'r ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac ehangach sy'n effeithio ar lesiant plant a phobl ifanc.



Nina Maxwell yw Prif Gymrawd Ymchwil ac Arweinydd Academaidd Strategol ar gyfer Ymchwil Camfanteisio Troseddol a Rhywiol, sy'n arwain ar waith sy'n canolbwyntio ar ddiogelu, camfanteisio ar blant ac arferion diogelu trosiannol.



Mae **David Westlake** yn Brif Gymrawd Ymchwil ac yn Arweinydd Academaidd Strategol ar gyfer Astudiaethau Gwerthuso, gan arwain gwerthusiadau ar raddfa fawr sy'n canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd.



Dawn Mannay yw'r Arweinydd Academaidd Strategol ar gyfer Ymchwil Ôl-raddedig, gan gefnogi datblygiad ymchwilwyr ôl-raddedig a chryfhau gallu ymchwil creadigol ac ansoddol ar draws CASCADE.



Mae **Katherine Shelton** yn Athro Seicoleg Ddatblygiadol ym Mhrifysgol Caerdydd, sy'n arwain ymchwil sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl plant, perthnasoedd teuluol, a phrofiadau plant a phobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu, sy'n agored i niwed, ac sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

3. Crynodeb o'r flwyddyn

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi nodi dechrau cyfnod newydd i Bartneriaeth CASCADE wrth i ni symud i'n blwyddyn gyntaf o gyllid cynaliadwyedd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Mae'r cyfnod pontio hwn wedi rhoi cyfle i fyfyrio ar yr hyn rydym yn canolbwyntio arno fel canolfan ymchwil, mireinio ein strategaeth ymchwil, ac ystyried ble y gallwn wneud y cyfraniad mwyaf at ymchwil, polisi ac ymarfer gofal cymdeithasol plant yng Nghymru a thu hwnt.

Drwy gydol 2025–2026, parhaodd ymchwilwyr Partneriaeth CASCADE i sicrhau cyllid newydd, cyhoeddi ymchwil ddylanwadol, cryfhau partneriaethau, ac ymgysylltu â llunwyr polisïau, ymarferwyr a chymunedau ledled Cymru ac yn rhyngwladol.

Mae'r tudalennau canlynol yn tynnu sylw at rai o'r cyflawniadau, allbynnau a meysydd effaith allweddol o bob rhan o'r bartneriaeth yn ystod y flwyddyn adrodd, gan gynnwys metrigau craidd, uchafbwyntiau cyhoeddiadau, ac enghreifftiau o sut mae ymchwil Partneriaeth CASCADE yn cyfrannu at newid ystyrlon i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Metrigau Craidd
Cyfnod adrodd:2025/2026

Partneriaeth CASCADE

Gwobr seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i'r grŵp



Cyllid uniongyrchol a ddyfarnwyd
£600k

Swyddi a grëwyd drwy gyllid uniongyrchol
8

Grantiau a enillwyd yn ystod y cyfnod adrodd

Grantiau a enillwyd	Dan arweiniad y grŵp	Grŵp yn cydweithio
Nifer	4	2
Gwerth	£444k	£3.5m
Cyllid i Gymru	£414k	£1.8m
Cyllid i grŵp	£414k	£1.1m
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer Cymru	4	18
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer grŵp	4	12



Nifer y cyhoeddiadau



Nifer y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd



Nifer y cyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan

Uchafbwyntiau cyhoeddi



Experimental Methods and Childrens Social Care the Contributions of Randomised Control Trials

Llyfr wedi'i olygu gan ymchwilydd CASCADE David Westlake ac sy'n cynnwys naw pennod gan awduron CASCADE, i gydnabod ein rôl flaenllaw ym maes gofal cymdeithasol plant.

Clwstwr hapdreialon rheoledig yn ymwneud â gweithwyr cymdeithasol mewn ysgolion yn Lloegr

Y treial hapsamplu rheolyddedig mwyaf erioed yng ngwaith cymdeithasol y DU; bellach wedi'i gyhoeddi mewn cyfnodolyn rhyngwladol a adolygir gan gymheiriaid.



Canfod ffigurau rhieiniol plant sy'n mynd i ofal: Manteision ac anfanteision dulliau cysylltu data amrywiol yn defnyddio setiau data o Gymru

Cynnydd methodolegol sy'n cynnwys ystyried tadau, y mae ychydig o sylw wedi bod arnynt hyd yn hyn mewn ymchwil data gweinyddol. Dan arweiniad ein harweinydd cysylltu data Nell Warner ac un o'r awduron eraill, ein cydweithiwr Helen Hodges, a fu farw yn ddiweddar.

Symptomau mewnol a phroblemau allanol plant wedi'u mabwysiadu, 8 mlynedd ar ôl lleoliad: Cydweithrediad â'r Ysgol Seicoleg

Cydweithrediad â'r Ysgol Seicoleg. Cyhoeddiad o Astudiaeth Carfan Mabwysiadu, sef astudiaeth gyntaf CASCADE i ddeillio o'r cydweithrediad hwn.

Hyfforddiant cyfweld cymhellol i weithwyr cymdeithasol i blant a theuluoedd yn y Ffindir: Astudiaeth werthuso archwilio

Cymhwysiad rhyngwladol o ymagwedd at ymarfer amddiffyn plant a ddatblygwyd o gyfweliadau ysgogol gan academyddion CASCADE Donald Forrester a David Wilkins.



Llwybrau addysgol a chanlyniadau i blant sydd â phrofiad o ofal: Astudiaeth hydredol, 16 mlynedd

Darn sylwebaeth pwysig ar y cyfyngiadau ar ddefnyddio data gweinyddol mewn gwerthusiadau.



Gwneud penderfyniadau cywir o ran lles plant: cymharu ChatGPT gyda gweithwyr cymdeithasol cymwys

Astudiaeth arloesol sy'n cymharu allbynnau AI a dyfarniadau proffesiynol.

Dulliau Cyfranogol mewn Gwaith Cymdeithasol Plant a Theulu

Llyfr ar ddulliau cyfranogol mewn gwaith cymdeithasol sy'n cael ei olygu gan ymchwilydd gyrfa gynnar CASCADE Sammi Fitz-Symonds ac sy'n cynnwys sawl astudiaeth CASCADE o'r blynyddoedd diwethaf. Chwe phennod gan awduron CASCADE.

Arloesol ac uchelgeisiol neu afrealistig a pheryglus? Safbwyntiau proffesiynol cychwynnol ar beilot y prosiect Incwm Sylfaenol i bobl sy'n gadael gofal yng Nghymru

Canlyniadau cyntaf a adolygwyd gan gymheiriaid o'r gwerthusiad mawr hwn.



4. Themâu allweddol eleni

Mae'r adroddiad eleni wedi'i strwythuro o amgylch tair thema allweddol sy'n adlewyrchu pa mor eang yw gwaith Partneriaeth CASCADE a'r meysydd sydd bwysicaf i ni fel canolfan ymchwil: meithrin, cydweithio a newid. Gyda'i gilydd, mae'r adrannau hyn yn tynnu sylw at y ffordd rydym yn parhau i ddatblygu meysydd ymchwil ac arloesi newydd, gweithio ochr yn ochr â phartneriaid ar draws polisi ac ymarfer, dylanwadu ar newid ystyrlon i blant a theuluoedd, a chefnogi twf ymchwil ac arweinyddiaeth i'r sector yn y dyfodol.

Meithrin -

Tynnu sylw at y ffordd mae Partneriaeth CASCADE yn parhau i dyfu a datblygu meysydd ymchwil newydd, partneriaethau ac arloesi, wrth gefnogi pobl, sgiliau ac arweinyddiaeth ar draws y sector i gryfhau dyfodol ymchwil ac ymarfer gofal cymdeithasol plant.

Cydweithio -

Arddangos y gwaith a rennir sy'n sail i ymchwil Partneriaeth CASCADE, gan ddod ag ymchwilwyr, llunwyr polisïau, ymarferwyr a chymunedau at ei gilydd.

Newid -

Archwilio sut mae gwaith Partneriaeth CASCADE yn dylanwadu ar bolisïau, ymarfer a chanlyniadau go iawn ar gyfer plant, teuluoedd a gwasanaethau ledled Cymru a thu hwnt.

Meithrin

Partneriaeth CASCADE a meithrin twf rhwydweithiol

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Partneriaeth CASCADE wedi bod yn chwaraewr allweddol wrth ddatblygu canolfannau ymchwil newydd gyda chyllid seilwaith gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.





CARE
Centre for Adult Social Care Research
Canolfan Ymchwil Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Y Ganolfan Ymchwil Gofal Cymdeithasol i Oedolion (CARE) oedd y gyntaf o'r rhain. Yn yr achos hwn, roedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi cyhoeddi galwad benodol am fynegi diddordeb i sefydlu canolfan o'r fath, gan gydnabod yr angen amdano yn yr ecoleg dystiolaeth ar gyfer system iechyd a gofal cymdeithasol Cymru. Arweiniodd Jonathan Scourfield, Dirprwy Gyfarwyddwr CASCADE, gais i Gaerdydd gynnal y ganolfan hon, gan ddod ag arbenigedd ynghyd o amrywiaeth o ddisgyblaethau academaidd ac ysgolion ledled y brifysgol. Mae CARE wedi mynd o nerth i nerth ers dechrau yn 2023, o dan arweinyddiaeth yr Athro Paul Willis.

SCALE
The Centre for Social Care and Artificial Intelligence Learning

Yr ail oedd y Ganolfan Dysgu Gofal Cymdeithasol a Deallusrwydd Artiffisial (SCALE). Yn yr achos hwn, roedd Cyfarwyddwr CASCADE, yr Athro Donald Forrester, yn allweddol wrth lunio'r syniad ar gyfer canolfan o'r fath a thrafod cydweithio rhwng Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol a'r Ysgol Cyfrifiadureg yng Nghaerdydd. Roedd SCALE yn un o'r canolfannau a oedd yn ymgeisio am gyllid canolfannau catalytig newydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ac roedd hyn yn llwyddiannus. Dim ond un flwydd oed ydyw, ond mae eisoes wedi cael rhywfaint o lwyddiant cynnar o ran sicrhau cyllid.



ExChange

Yn drydydd, mae ExChange Cymru. Dyma'r sefydliad sy'n canolbwyntio ar gyflwyno mewnwelediadau o ymchwil i'r sector gofal cymdeithasol. Roedd ExChange yn wreiddiol yn rhan o CASCADE ond mae bellach yn endid annibynnol ynddo'i hun gyda chysylltiadau cryf â CASCADE, CARE a SCALE.





NCSR

Mae ymchwilwyr CASCADE hefyd wedi chwarae rôl bwysig wrth gryfhau seilwaith ymchwil gofal cymdeithasol ehangach ledled y DU. Roedd Jonathan Scourfield yn rhan o sefydlu'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Atal Hunanladdiad ac Ymchwil Hunan-niweidio (NCSR) ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'r ganolfan yn dwyn ynghyd arbenigedd mewn gwyddor data poblogaeth, gofal cymdeithasol a chysylltiad data gweinyddol i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer polisi ac ymarfer gofal cymdeithasol ledled y DU.

Mae'r twf rhwydweithiol hwn yn rhoi Caerdydd yn yr haen uchaf o brifysgolion y DU o ran cyllid seilwaith ymchwil gofal cymdeithasol. Mae'n nodweddiadol o ran cwmpas gofal cymdeithasol eang, sy'n cwmpasu cwrs bywyd cyfan, a hefyd rôl AI. Bydd Partneriaeth CASCADE yn parhau i weithio gyda'r canolfannau eraill hyn ac ExChange i wella'r dirwedd dystiolaeth ar gyfer ymchwil gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Meithrin ymchwil a dysgu rhyngwladol

Mae'r Ganolfan Plentyndod Gwell (Canolfan Bedre Børneliv) yn ganolfan ymchwil a sefydlwyd yng Ngholeg Prifysgol Copenhagen. Mae'r ganolfan yn dwyn ynghyd waith cymdeithasol, addysg gynnar plant ac ymweliadau iechyd, ynghyd â disgyblaethau ymarfer eraill sy'n gweithio gyda'r grŵp hwn, i geisio darganfod sut i wella canlyniadau i blant dan saith oed. Roedd Donald Forrester yn ymwneud â sefydlu'r Ganolfan Plentyndod Gwell a chynghorodd ar ddulliau ymchwil sy'n briodol i gyflawni ei nodau. Mae Donald yn parhau i fod yn Gadeirydd y Bwrdd Gwyddonol, gan adolygu eu holl brosiectau ac yn ymweld â Copenhagen yn flynyddol i ategu'r broses o ddatblygu'r ganolfan.

Ym mis Awst 2025, teithiodd Lorna Stabler, Cymrawd Ymchwil CASCADE, a Donald gyda'i gilydd i gyflwyno'r ysgol haf dulliau ymchwil gyntaf a gynigir gan y ganolfan. Roedd yr wythnos addysgu yn cynnwys sesiynau ar ddylunio ymchwil, methodoleg realistig, a datblygu cynnig ymchwil llwyddiannus, ac roedd dros 50 o gyfranogwyr yn bresennol o bob rhan o Ddenmarc a Sweden.

Ar ôl yr ysgol haf hon, arhosodd Lorna yn y ganolfan yn Nenmarc am dri mis i ategu'r gwaith o ddatblygu prosiectau realistig, gan gynnwys cyflwyno gweithdai ar adolygiadau realistig, gwerthuso realistig a gwyddoniaeth weithredu. Traddododd hefyd ddarlithoedd i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol, gan rannu ymchwil a gynhaliwyd gan CASCADE.



Nod y cydweithrediad parhaus â Choleg Prifysgol Copenhagen yw datblygu ceisiadau yn y dyfodol. Er enghraifft, mae Lorna ar hyn o bryd yn ymwneud â datblygu cais gydag academyddion yng Ngholeg Prifysgol Copenhagen a Choleg Prifysgol De Denmarc, sy'n canolbwyntio ar y mecanweithiau allweddol o fewn ymyriadau gofal llwyddiannus. Bydd dau fyfyriwr PhD sy'n ymweld o'r Ganolfan Plentyndod Gwell yn dod ar gyfer lleoliad ymchwil am fis ym mlwyddyn academaidd 2026/27.





Llunio ymchwil i ofal gan berthnasau yng Nghymru

Er gwaethaf ymchwil ac ymwybyddiaeth gynyddol o ofal gan berthnasau, nid oedd unrhyw fecanwaith i ofalwyr sy'n berthnasau lunio ymchwil yng Nghymru. I fynd i'r afael â hyn, gweithiodd CASCADE gyda AFKA Cymru a Kinship i sefydlu grŵp newydd: Y Grŵp Cynghori ar Ymchwil a Pholisi Gofal gan Berthnasau.

Mae'r grŵp hwn yn enghraifft bwysig o sut mae CASCADE yn meithrin gallu ymchwil yng Nghymru drwy gydweithio rhwng ymchwilwyr, ymarferwyr, sefydliadau'r trydydd sector a phobl sydd â phrofiad bywyd. Mae'r grŵp yn galluogi gofalwyr sy'n berthnasau i helpu i lunio blaenoriaethau ymchwil, dylanwadu ar drafodaethau polisi, a chryfhau'r sylfaen dystiolaeth ynghylch gofal gan berthnasau yng Nghymru.

Mae'r grŵp yn arbennig o werthfawr mewn maes lle mae dal i fod bylchau tystiolaeth mawr, ac mae pwyslais cynyddol ar bolisi.

Roedd y broses o sefydlu'r grŵp wedi creu strwythur parhaus i grwpio ymchwil a pholisi ym mhrofiad bywyd teuluoedd gofal gan berthnasau. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob tri mis, a gall academyddion a llunwyr polisïau ymgynghori â'r aelodau am syniadau ymchwil posibl, prosiectau parhaus neu fentrau polisi. Bu cyfleoedd hefyd i aelodau gymryd rhan mewn cynadleddau, gweithgorau ac ymddangosiadau yn y cyfryngau.



Mae'r grŵp hwn yn enghraifft o sut rydym yn ymdrechu i gynnwys pobl sydd â phrofiad bywyd bob amser i lunio'r gwaith a wnawn, a sut rydym yn archwilio'r model gorau posibl ar gyfer gwneud hyn mewn modd ystyrlon. Er bod cynnal ein grwpiau ein hunain yn allweddol i lunio CASCADE, mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill – fel AFKA Cymru a Kinship – yn galluogi cyfranogiad gan y cyhoedd i esblygu y tu hwnt i CASCADE ac i sefydliadau sy'n gweithio o ddydd i ddydd gyda theuluoedd a chymunedau.

Datblygu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr ymchwil

Dewiswyd dau ymchwilydd CASCADE, Dr Harriet Lloyd a Dr Lorna Stabler, ar gyfer rownd ddiweddaraf Gwobrau Datblygu Ymchwilwyr Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gan gydnabod eu harweinyddiaeth gynyddol ym maes ymchwil gofal cymdeithasol plant. Mae'r gwobrau'n darparu cyllid ochr yn ochr â chyfleoedd mentora, hyfforddiant a rhwydweithio wedi'u teilwra i gefnogi ymchwilwyr ar eu cam nesaf yn eu gyrfaoedd. Bydd gwobr Harriet yn cefnogi ymchwil i ganolfannau asesu teuluoedd preswyl, tra bydd gwobr Lorna yn datblygu ymchwil ymhellach ynghylch gofal gan berthnasau a chymorth i deuluoedd.



Dr Harriet Lloyd



Dr Lorna Stabler

Cefnogi capasiti ymchwil ledled Cymru



Dr Martin Elliott



Yr Athro Jonathan Scourfield

Mae ymchwilwyr CASCADE yn parhau i chwarae rôl bwysig wrth gryfhau capasiti ymchwil o fewn gofal cymdeithasol, yng Nghymru a ledled y DU. Ar hyn o bryd, mae Martin Elliott wedi'i secondio ddau ddiwrnod yr wythnos i Gyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru fel Cynghorydd Datblygu Ymchwilwyr, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu gallu ymchwil ledled Cymru gyda phwyslais penodol ar ofal cymdeithasol. Mae Martin Elliott a Jonathan Scourfield hefyd yn aelodau pwyllgor ar gyfer Rhaglen Ymchwil NIHR ar gyfer Gofal Cymdeithasol, gan helpu i lunio a chefnogi ymchwil gofal cymdeithasol yn y dyfodol ledled y DU.

Cyfrannu arweinyddiaeth ymchwil ar draws y sector

Mae Dr Nina Maxwell yn parhau i gyfrannu at ystod o grwpiau ymchwil, polisi ac ymarfer cenedlaethol, gan adlewyrchu rôl gynyddol CASCADE mewn arweinyddiaeth ymchwil ar draws y sector. Yn ogystal â gwasanaethu ar Bwyllgor Blaenoriaethu Rhaglen Asesu Technoleg Iechyd yr NIHR ar gyfer Gofal Cymdeithasol a chefnogi Gwobrau Datblygu Ymchwilwyr Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae Nina hefyd yn cyfrannu at Grŵp Cynghori Academaidd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, yn darparu cyngor ymchwil academaidd i Cafcass, ac yn gwasanaethu fel Is-gadeirydd Pwyllgor Cynghori Plant mewn Angen y BBC yng Nghymru. Mae Nina hefyd yn aelod o fwrdd golygyddol y cyfnodolyn British Journal of Social Work.



Dr Nina Maxwell

Datblygu ymchwil mewn niwrowahaniaeth a gofal

Yn ddiweddar, cwblhaodd Dr Sarah Thompson ei Gwobr Datblygu Ymchwilydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gan adeiladu ar waith Cymrodoriaeth cynharach sy'n archwilio profiadau a chanlyniadau plant niwrowahanol mewn gofal maeth a gofal gan berthnasau yng Nghymru. Trwy'r gwaith hwn, nododd Sarah ystod o heriau sy'n wynebu plant awtistig a niwrowahanol a fyddai'n elwa ar ymchwil bellach a newidiadau i bolisïau ac ymarfer.



Dr Sarah Thompson

Un o'r brif bethau y mae'r wobr wedi canolbwyntio arno oedd gweithgarwch ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gofalwyr maeth, gofalwyr sy'n berthnasau, staff gwaith cymdeithasol a Bwrdd Cynnwys y Cyhoedd CASCADE. Mae hyn wedi helpu i nodi blaenoriaethau ymchwil yn y dyfodol a llunio cynigion cyllido yn y dyfodol o'r camau cynharaf, gan sicrhau bod gwaith yn y dyfodol wedi'i seilio ar brofiadau a blaenoriaethau'r rheini â phrofiad uniongyrchol. Yn yr hirdymor, nod yr ymchwil yw gwella dealltwriaeth o ddiagnosis, anghenion cymorth, a'r gorgyffwrdd rhwng ymddygiadau niwrowahnol a'r rhai sy'n gysylltiedig â thrawma, gan helpu i lywio polisïau ac arferion yn y dyfodol i wella canlyniadau i blant mewn gofal.

"Ym mis Ionawr 2026, dechreuais fy nghyfnod ymweld chwe mis o hyd yng nghanolfan CASCADE i ddatblygu fy ymchwil ynghylch eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal preswyl. Roedd y profiad hwn yn gyfle gwerthfawr i gryfhau fy ymchwil, gan fy ngalluogi i ymgysylltu ag arbenigwyr blaenllaw a chymharu safbwyntiau'r Eidal â'r system yng Nghymru. Rwy'n ddiolchgar iawn i gydweithwyr CASCADE am fod mor agored ac am rannu gwybodaeth a syniadau ystyrlon ar ofal cymdeithasol plant ac ymchwil gyfranogol â phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal."



Glenda Cinotti
Myfyriwr PhD Prosesau Cymdeithasol ac Economaidd, Prifysgol Milano-Bicocca, yr Eidal

Cydweithio

Partneriaid a chydweithredwyr

Mae partneriaeth a chydweithredu wrth wraidd gwaith CASCADE. Rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau academaidd, cyrff cyhoeddus, elusennau, sefydliadau cymunedol ac unigolion sy'n rhannu ein hymrwymiad i wella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r cydweithrediadau hyn yn cryfhau ansawdd, perthnasedd ac effaith ein hymchwil, gan sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gysylltiedig â pholisi, ymarfer a phrofiad bywyd.

Mae ein partneriaethau pwysicaf yn aml gydag awdurdodau lleol, ymarferwyr, llunwyr polisi, a phobl sydd â phrofiad bywyd o ofal cymdeithasol plant.

Mae eu harbenigedd, eu mewnwelediad a'u her yn helpu i lunio ein blaenoriaethau ymchwil, gwella ansawdd ein gwaith, a sicrhau bod y dystiolaeth a gynhyrchwn yn parhau i fod wedi'i seilio ar realiti bywydau a gwasanaethau plant.

Mae'r sefydliadau isod yn cynrychioli detholiad o'r partneriaid yr ydym wedi cydweithio â nhw ar geisiadau, prosiectau a mentrau ymchwil llwyddiannus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr, mae'n adlewyrchu ehangder y perthnasoedd sy'n sail i'n gwaith a'r dull cydweithredol sy'n parhau i yrru ein hymchwil, arloesi, a'r effaith rydym yn ei chael.



Plant sy'n cael gofal gan berthnasau

Mae pwyslais cynyddol wedi bod ar ofal gan berthnasau mewn ymchwil ac ymarfer oherwydd ei bod wedi dod yn fwyfwy amlwg, er y gall plant gael gofal orau o fewn eu rhwydweithiau teuluol pan na allant aros gyda'u rhieni, mae teuluoedd gofal gan berthnasau yn wynebu anfantais a diffyg cymorth. Fodd bynnag, nid oes llawer o ymchwil sy'n canolbwyntio ar brofiadau plant sy'n cael gofal gan berthnasau, a hyd yn oed llai ar brofiadau plant wedi eu hiliaethu sy'n cael gofal gan berthnasau. Mae'n bwysig clywed gan blant eu hunain am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Heb hyn, mae'n anodd creu gwasanaethau effeithiol a sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch yn yr ymchwil, gwnaeth Foundations: What Works for Children and Families alwad wedi'i ffocysu am ymchwil yn haf 2025. Mewn cydweithrediad â sefydliad a arweinir gan y gymuned – Families in Harmony – cyflwynodd Lorna a Dawn gais llwyddiannus am gyllid.



Dechreuodd y prosiect a ariannwyd – Kinship Care, Community and Culture – ym mis Chwefror 2026. Mae'n canolbwyntio ar brofiadau plant sy'n cael gofal gan berthnasau sy'n cael eu magu gan deuluoedd nad ydynt yn rhannu eu treftadaeth hiliol neu ddiwylliannol.



Gall hyn fod yn blant sydd â mwy nag un ethnigrwydd, neu sy'n cael eu magu gan ofalwyr o ddiwylliant gwahanol i'w diwylliant eu hunain. Bydd y prosiect yn defnyddio dulliau creadigol i alluogi plant i rannu'r hyn sy'n bwysicaf iddyn nhw. Mae dau ymchwilydd sy'n gymheiraid – Kyle a Reece – yn cael eu cyflogi i weithio ar y prosiect o'r cychwyn cyntaf. Mae gan y ddau brofiad o gael gofal gan berthnasau, ac maent yn fentoriaid cymheiriaid i blant eraill sy'n cael gofal gan berthnasau trwy eu gwaith gyda Families in Harmony.

Cyfarfu Lorna a Dawn o Bartneriaeth CASCADE, Sharon, sylfaenydd Families in Harmony, a Kyle a Reece â Jahnine Davis, y Llysgennad Gofal gan Berthnasau Cenedlaethol yn Lloegr, ar ddechrau'r prosiect i rannu'r gobeithion am yr effaith y dymunant yn ei cael ac i geisio ei chyngor ar sut i sicrhau y gall y prosiect effeithio ar bolisïau. Y flwyddyn nesaf (Mai 2026 – Rhagfyr 2026), bydd y tîm yn cynnal gweithdai creadigol gyda phlant a phobl ifanc ac yn cynhyrchu allbynnau creadigol.

Gwerthusiadau Cychwyn Cadarn a Dechrau'n Deg

Gall lleihau anghydraddoldeb yn y blynyddoedd cynnar a thlodi plant gael effeithiau enfawr ar gyfleoedd bywyd plant. Drwy gydol 2025–26, mae tîm ymchwil Partneriaeth CASCADE dan arweiniad Dr Zhang wedi bod yn gwerthuso effaith Dechrau'n Deg yng Nghymru a Chychwyn Cadarn yng Ngogledd Iwerddon gan ddefnyddio data gweinyddol ar raddfa fawr, gan weithio'n agos gyda phartneriaid ar draws y ddwy genedl. Mae'r ddwy raglen yn darparu cymorth blynyddoedd cynnar i deuluoedd â phlant dan bedair oed sy'n byw yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.



Er gwaethaf eu poblogrwydd a'u presenoldeb hirsefydlog, nid oes llawer o dystiolaeth gadarn wedi bod ar y gwahaniaeth y mae'r polisïau hyn yn ei wneud i blant a theuluoedd. Ar adeg pan mae pob cenedl yn y DU yn blaenoriaethu gweithredu ar anghydraddoldeb a thlodi plant, mae ein gwaith, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â phartneriaid polisïau ac ymarfer, yn cynnig mewnwelediadau amserol i lunwyr polisi ledled y wlad.

Mae ein canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yn dangos bod plant a anwyd mewn ardaloedd Cychwyn Cadarn yn llawer llai tebygol o gael eu cyfeirio at wasanaethau cymdeithasol plant neu ddod yn 'blentyn mewn angen' cyn pump oed. Mae'r rhain yn wahaniaethau ystyrlon.

O ystyried bod 7,410 o enedigaethau bob blwyddyn yn ardaloedd Cychwyn Cadarn, mae hyn yn golygu bod tua 430 o blant yn osgoi mynd i mewn i'r system atgyfeirio gwasanaethau cymdeithasol, a thua 293 o blant bob blwyddyn yn osgoi dod yn 'blentyn mewn angen' cyn eu pen-blwydd yn bump oed, oherwydd presenoldeb Cychwyn Cadarn yn eu cymuned yn unig. Rydym hefyd yn dod o hyd i effeithiau arbennig o gadarnhaol i blant sy'n cael eu geni i famau iau, gan awgrymu y gallai Cychwyn Cadarn fod yn arbennig o werthfawr i deuluoedd sy'n wynebu gwendidau ychwanegol. Disgwylir canlyniadau cynnar o'r gwerthusiad Dechrau'n Deg ar ôl haf 2026.

Fe wnaethom rannu ein canfyddiadau Cychwyn Cadarn mewn gweithdy personol yn Belfast yn 2026, gan ddod â swyddogion polisi a chynrychiolwyr y sector ynghyd i drafod y goblygiadau ar gyfer ymarfer. Rydym wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid ym Miwro Cenedlaethol y Plant, yn ogystal â staff a theuluoedd Cychwyn Cadarn a Dechrau'n Deg, gan sicrhau bod yr ymchwil wedi'i seilio ar brofiad yn y byd go iawn a bod ein tystiolaeth yn llywio ymarfer ac yn cefnogi ymdrechion parhaus i leihau anghydraddoldebau yn y blynyddoedd cynnar.



Llyfr comic prosiect eiriolaeth plant







Roedd y prosiect hwn yn archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau eirioli yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal i gael dweud eu dweud wrth wneud penderfyniadau am eu bywydau. Canolbwyntiodd yr ymchwil ehangach ar y gwaith eirioli a chyfranogi sy'n digwydd mewn ymddiriedolaeth plant fawr. Edrychodd ar sut mae pobl ifanc yn deall eiriolaeth, beth sy'n eu helpu i deimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed, a sut olwg dylai fod ar arferion da mewn gwasanaethau yn y dyfodol. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys cyfweliadau, grwpiau ffocws a gweithdai gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal i lunio fframwaith o arferion da ar gyfer gwasanaethau eirioli.

Datblygwyd y llyfr comic fel ffordd o rannu'r canfyddiadau hynny â phobl ifanc mewn fformat a oedd yn teimlo'n fwy hygyrch nag adroddiad ysgrifenedig. Mae'n dilyn unigolyn ifanc sy'n teimlo ei fod wedi'i orlethu ac yn cael trafferth mynegi ei hun. Gyda chymorth eiriolwr, mae'n cael ei helpu i fynegi'r hyn sy'n bwysig iddo, dewis sut mae am gadw mewn cysylltiad, cael mynediad at wybodaeth, a magu hyder i siarad drosto ei hun. Mae'r stori yn adlewyrchu'r neges allweddol o'r ymchwil, sef bod eiriolaeth yn gweithio orau pan fydd pobl ifanc yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu parchu ac yn eu cefnogi mewn ffyrdd sy'n addas iddynt.

Cafodd y llyfr comic ei lunio'n uniongyrchol gan y bobl ifanc yn yr ymddiriedolaeth. Buom yn gweithio gyda 25 o bobl ifanc 8-21 oed mewn gweithdai creadigol i ddatblygu syniadau am arddull, cymeriadau, cynnwys a neges y llyfr comic. Yna buom yn gweithio gydag artist llyfrau comic i ddod â'r syniadau hyn at ei gilydd. Roedd y bobl ifanc yn glir y dylai'r llyfr comic ddangos eiriolaeth fel rhywbeth ymarferol, defnyddiol a grymus, yn hytrach nag fel gwasanaeth ffurfiol arall. Mae'r llyfr comic gorffenedig bellach ar gael i bobl ifanc ledled yr ymddiriedolaeth. Mae'n cefnogi ymwybyddiaeth o eiriolaeth, yn helpu i esbonio beth y gall eiriolwr ei wneud, ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd dewis, ymddiriedaeth a chyfathrebu.

Newid

Mae creu newid ystyrlon yn ganolog i waith CASCADE. Ochr yn ochr â chynhyrchu ymchwil o ansawdd uchel, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod tystiolaeth yn cyrraedd y bobl, y sefydliadau a'r systemau sy'n gallu ei defnyddio i wella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Mae ein gwaith eleni yn tynnu sylw at ddylanwad cynyddol ymchwil Partneriaeth CASCADE ledled Cymru a thu hwnt – o lywio canllawiau Llywodraeth Cymru a thrafodaethau'r Senedd, i gefnogi arferion rheng flaen, cyfrannu at ddadleuon ynghylch polisi ar lefel y DU, a dylanwadu ar ddulliau rhyngwladol ar gyfer gofal a chymorth. Mae llawer o'r enghreifftiau hyn yn dangos pwysigrwydd ymchwil a gydgynhyrchwyd, sy'n seiliedig ar brofiad bywyd, ac a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â llunwyr polisïau, ymarferwyr a chymunedau.

Uchafbwyntiau allweddol effaith

- Cyfrannodd tystiolaeth ar ofal gan berthnasau at drafodaethau'r Senedd a thrafodaethau polisi ehangach ynghylch cymorth i deuluoedd gofal gan berthnasau yng Nghymru.
- Fe wnaeth ymchwil o'r rhaglen Gwella Canlyniadau ar gyfer Plant mewn Gofal lywio sesiwn friffio Swyddfa Seneddol Gwyddoniaeth a Thechnoleg y DU (POST).
- Argymhellwyd adnoddau diogelu camfanteisio'n droseddol ar blant yng nghanllawiau diogelu Llywodraeth Cymru, gan gefnogi ymatebion i gamfanteisio ledled Cymru.



- Addaswyd y Siarter Arfer Da ar gyfer Cefnogi Rhieni mewn Gofal ac sy'n Gadael Gofal, a gynhyrchwyd ar y cyd â rhieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan CREATE Foundation Australia, a'i rhannu â Gweinidogion Amddiffyn Plant ar draws holl wladwriaethau a thiriogaethau Awstralia.
- Cyfeiriwyd at werthusiad o Lysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn nhrafodaethau'r Senedd ar ddiwygio gofal a chyfrannodd hyn at sgyrsiau cenedlaethol am eu cyflwyno ledled Cymru yn y dyfodol.



- Parhaodd ymchwil gan y Peilot Incwm Sylfaenol yng Nghymru ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal i lywio trafodaethau ynghylch polisi gweithredol yng Nghymru a denu diddordeb rhyngwladol cynyddol.
- Cyfrannodd ymchwilwyr gyflwyniadau tystiolaeth, ymgynghoriadau a gweithgarwch cynghori gyda Llywodraeth Cymru, cyrff polisi'r DU a sefydliadau'r sector, gan helpu i sicrhau bod ymchwil yn llywio'r gwaith o ddatblygu polisïau ac arferion ar draws gofal cymdeithasol plant.

Cefnogi rhieni â phrofiad o fod mewn gofal y tu hwnt i Gymru

Yn dilyn ymweliad â Melbourne yn 2025, mae Siarter Arfer Da Partneriaeth CASCADE ar gyfer Cefnogi Rhieni mewn Gofal ac sy'n Gadael Gofal wedi helpu i lunio trafodaethau ynghylch ymarfer ac ymgysylltu â pholisïau ledled Awstralia. Datblygwyd y siarter yn wreiddiol yng Nghymru drwy gydgynhyrchu gyda rhieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ac fe'i rhannwyd â sefydliadau ac adrannau'r llywodraeth sy'n cefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal ledled Victoria.



Yn ystod yr ymweliad, ymgysylltodd Louise Roberts a Rachael Vaughan ag amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Fictoria, CREATE Foundation, Lighthouse Foundation, Brotherhood of St Laurence a'r Brave Foundation.

Ers hynny, mae'r cydweithrediad wedi arwain CREATE Foundation i gydgynhyrchu ei fersiwn benodol o'r siarter ar gyfer Awstralia.

Mae hyn bellach wedi'i gyflwyno i'r Gweinidog Ffederal dros Wasanaethau Cymdeithasol a'i ddosbarthu i Weinidogion Amddiffyn Plant ar draws holl wladwriaethau a thiriogaethau Awstralia, gyda thrafodaethau ar y gweill ynghylch proses gymeradwyo ffurfiol.



Cafodd y siarter sylw rhyngwladol ehangach hefyd trwy gyflwyniadau yn nigwyddiad Lessons from the UK and Ireland: Pathways Beyond Care y Ganolfan Ragoriaeth mewn Lles Plant a Theuluoedd a'r symposiwm Home Stretch, yr aeth mwy na 300 o gynrychiolwyr o bob rhan o Awstralia iddo. Mae'r gwaith yn dangos sut mae ymchwil a dulliau cydgynhyrchu a ddatblygwyd o fewn Partneriaeth CASCADE yn parhau i ddylanwadu ar drafodaethau, ymarfer a pholisïau y tu hwnt i Gymru.

Uchafbwynt arbennig oedd cymryd rhan mewn Grŵp Cynghori Arbenigol Ifanc Sefydliad CREATE, lle bu pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn trafod y siarter yn uniongyrchol ac yn rhannu mewnwelediadau o'u profiadau eu hunain.

Llunio'r dyfodol a Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol

Mae Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn cynnig dewis arall i achosion gofal safonol pan fo camddefnyddio sylweddau rhieni yn ffactor. Mae'r un barnwr sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig yn goruchwylio pob achos, gyda chymorth gan dîm amlddisgyblaethol sy'n helpu rhieni i fynd i'r afael â'u defnydd o sylweddau. Mae'r dull yn gydweithredol yn hytrach nag yn wrthwynebol, ac mae'n anelu at roi cyfle gwirioneddol i deuluoedd aros gyda'i gilydd wrth sicrhau bod lles plant wrth wraidd y broses.



Er bod y gwerthusiad ei hun wedi dod i ben yn 2024, mae'n parhau i ffurfio trafodaethau ynghylch polisïau am ddyfodol cyfiawnder teuluol ac achosion gofal yng Nghymru a thu hwnt. Yn 2021, comisiynodd Llywodraeth Cymru gynllun peilot o Lysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol dwy flynedd o hyd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg – y cyntaf o'i fath yng Nghymru. Comisiynwyd Partneriaeth CASCADE gan y Ganolfan Arloesi ym Maes Cyfiawnder i werthuso'r cynllun peilot. Rhwng mis Ionawr 2022 a mis Ionawr 2024, gwnaethom gyfweld â theuluoedd a gweithwyr proffesiynol, arsylwi gwrandawiadau, a dadansoddi data gweinyddol i ddeall sut roedd Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn gweithio a pha amodau oedd yn eu hwyluso.

Roedd rhanddeiliaid sy'n agos at y gwasanaeth yn teimlo bod y llysoedd hyn wedi cynnig rhywbeth sylfaenol wahanol nag achosion arferol i deuluoedd, ac roedd a rwyddion cynnar bod y canlyniadau yn galonogol.

Fe wnaethom hefyd ddatblygu damcaniaethau rhaglenni sy'n esbonio'r mecanweithiau y mae Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn achosi newid drwyddynt.

Er i'r gwerthusiad ddod i ben yn 2024, mae ei ganfyddiadau'n parhau i gyfrannu'n uniongyrchol at drafodaethau ynghylch polisi. Yng Nghymru, roedd y cynllun peilot yn destun trafodaethau droeon yn y Senedd, gan gynnwys gohebiaeth rhwng y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a gweinidogion Llywodraeth Cymru. Rhoddodd David Westlake a Melissa Meindl (yr ymchwilwyr a wnaeth y prosiect) dystiolaeth yn y pwyllgor ochr yn ochr â chydweithwyr o'r Ganolfan Arloesi ym Maes Cyfiawnder. Roedd Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn amlwg yn adroddiad ymchwiliad y pwyllgor 'Os nad nawr, yna pryd?' ar broses ddiwygio radical ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, a argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru barhau i gyflwyno Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol ledled Cymru.

Cynhyrchodd y gwerthusiad ganfyddiadau cadarnhaol, gan gyfrannu at gorff o dystiolaeth sy'n awgrymu bod teuluoedd yn cael profiad cadarnhaol o'r llysoedd hyn, a'u bod yn helpu i leihau'r angen i blant fynd i ofal, gan arbed arian cyhoeddus yn gyffredinol trwy wneud hynny.

Mae'r gwerthusiad hefyd wedi cael effaith ymhell y tu hwnt i Gymru. Disgrifiodd yr Arglwydd Ustus Peter Jackson, barnwr arweiniol cenedlaethol Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol, ein hadroddiad terfynol fel "dogfen ardderchog" yn ei araith gynhadledd yn 2024 i Gymdeithas Cyfreithwyr i Blant, gan dynnu ar ei ganfyddiadau – gan gynnwys lleisiau rhieni a gweithwyr proffesiynol Cymru – i ddadlau'r achos dros gyflwyno rhagor o Lysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn barhaus.

5. Cynnwys y cyhoedd, ymgysylltu â nhw a lledaenu

Drwy gydol y flwyddyn, cyflwynodd academyddion o bob rhan o Bartneriaeth CASCADE weithdai, seminarau, prif gyflwyniadau a gweminarau gydag ymarferwyr, llunwyr polisïau ac ymchwilwyr ledled Cymru ac yn rhyngwladol. Roedd y gweithgarwch yn cynnwys cyflwyniadau mewn cynadleddau yn Nenmarc, Sweden, Awstralia, Seland Newydd, Indonesia a'r Unol Daleithiau, ochr yn ochr â gweithdai a digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar ymarferwyr ledled Cymru a'r DU.

Cyfrannodd ymchwilwyr at bodlediadau, gweminarau a thrafodaethau cyhoeddus ar feysydd a oedd yn cynnwys gofal gan berthnasau, camfanteisio troseddol ar blant, AI a barn gwaith cymdeithasol, eiriolaeth, arweinyddiaeth a chyfranogiad. Roedd ymchwil Partneriaeth CASCADE hefyd yn cael sylw yn y cyfryngau, ar baneli cynadleddau, mewn trafodaethau ynghylch polisïau ac mewn gweithgareddau datblygiad proffesiynol gyda sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, CORAM BAAF a'r BBC.

Parhaodd Partneriaeth CASCADE i gryfhau cysylltiadau rhwng ymchwil ac ymarfer trwy weithdai cydweithredol, gweithgarwch cynghori, digwyddiadau i ymarferwyr a gwaith lledaenu, gan helpu i sicrhau bod canfyddiadau ymchwil yn hygyrch, yn berthnasol ac yn gysylltiedig â realiti ymarfer gofal cymdeithasol rheng flaen.


Cynnwys y Cyhoedd



Mae gwaith cynnwys y cyhoedd CASCADE yn parhau i gynyddu o ran graddfa, amrywiaeth ac effaith, gan ddod â phlant, pobl ifanc a theuluoedd ynghyd i lunio ymchwil a dylanwadu ar newid.

Yn 2025–2026, fe wnaethom gyflawni **47 o weithgareddau ymgysylltu**, gan ymgysylltu â **273 o unigolion** ar draws ein grwpiau sefydlog a gweithgareddau sy'n seiliedig ar brosiectau. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i ymgorffori profiad bywyd ym mhob cam o'n gwaith.

Cyfranogwyr a gweithgareddau cynnwys y cyhoedd



	Cyfranogwyr	Gweithgareddau
Bwrdd Cynnwys CASCADE	17	4
Lleisiau CASCADE	28	6
Grŵp Rhieni CASCADE	45	12
Arall	183	25

Ehangu ymchwil gan gymheiriaid

Eleni fe wnaethom gryfhau ein model ymchwil gan gymheiriaid yn sylweddol, gan sicrhau bod profiad bywyd yn ganolog i'n proses o ddylunio a chyflwyno ymchwil.

- Parhaodd ymchwilydd cymheiriad sy'n rhiant i chwarae rôl flaenllaw yn ein prosiect **Eiriolaeth Rhieni a Llais y Teulu.**
- Fe wnaethom recriwtio **pedwar ymchwilydd cymheiriaid sydd â phrofiadol o fod mewn gofal**, gyda chefnogaeth Voices From Care Cymru, i gyfrannu at ein gwaith yn archwilio rôl cynghorydd personol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru.
- Croesawodd ein **prosiect gofal** gan berthnasau hefyd ddau ymchwilydd cymheiriaid, gan gefnogi ymgysylltu ystyrlon â phlant sy'n cael gofal gan berthnasau.

Mae'r rolau hyn nid yn unig yn cyfoethogi ansawdd a pherthnasedd ein hymchwil, ond hefyd yn creu cyfleoedd gwerthfawr i unigolion ddatblygu sgiliau a dylanwadu ar newid.



Cydgynhyrchu ar waith: Cyhoeddiadau

Cyrhaeddodd ein **Grŵp Rhieni CASCADE** garreg filltir bwysig eleni, gan gyd-ysgrifennu dau gyhoeddiad a adolygwyd gan gymheiriaid sy'n tynnu sylw at eu taith a'u heffaith:

- Mae papur yn y British Journal of Social Work yn archwilio datblygiad a thwf y Grŵp Rhieni.
- Mae ail gyhoeddiad yn Social Sciences yn myfyrio ar eu cyfraniadau at ymchwil ar eiriolaeth rhieni gan gymheiriaid.

Mae'r cyflawniadau hyn yn dangos pŵer cymryd rhan mewn ymchwil mewn ffordd ystyrlon dros yr hirdymor.



Cydnabyddiaeth genedlaethol

Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, dyfarnwyd **Gwobr Cynnwys y Cyhoedd** i'r Grŵp Rhieni yng nghynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Fel y myfyriodd un aelod:
"Rydw i wedi cael fy ngrymuso llawer o fod yn rhan o grŵp arobryn. Mae'n dangos pa mor bwysig yw cynnwys profiad bywyd mewn ymchwil."



Dyylanwadu ar benderfyniadau cyllido

Mae CASCADE hefyd yn cefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal i ymgysylltu'n uniongyrchol â **phroses ariannu NIHR**, gan gynnwys adolygu ceisiadau a chyfrannu at drafodaethau panel ar benderfyniadau cyllido.

Disgrifiodd un cyfranogwr y profiad fel a ganlyn:
"Mor ddiddorol a mewnweledol... Roeddwn i'n falch iawn o fod wedi cymryd rhan."

Mae'r gwaith hwn yn gam sylweddol tuag at sicrhau bod y rheini sydd â phrofiad bywyd yn dylanwadu nid yn unig ar y broses o ddylunio ymchwil, ond hefyd ar yr ymchwil sy'n cael ei hariannu.





Ymgysylltu â'r sector

Cysylltu ymchwil ag ymarfer rheng flaen

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cyflwynodd yr Athro David Wilkins gyfres o weithdai a gweminarau gydag awdurdodau lleol ac ymarferwyr yn Lloegr ac Iwerddon, gan ganolbwyntio ar oruchwyliaeth fyfyriol, sgiliau cyfathrebu a rôl ddeallusrwydd artiffisial sy'n dod i'r amlwg mewn gwaith cymdeithasol. Cyrhaeddodd y sesiynau hyn ymhell dros 250 o ymarferwyr, rheolwyr ac arweinwyr sy'n gweithio mewn gwasanaethau plant ac oedolion.



Yr Athro David Wilkins

Roedd rhan fawr o'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar oruchwyliaeth fyfyriol a "chael sgyrsiau sy'n cyfrif", gan gefnogi goruchwylwyr a gweithwyr cymdeithasol i feddwl am sut y gall goruchwyliaeth ddarparu cymorth emosiynol, creu cyfleoedd ar gyfer meddwl yn fyfyriol, a chryfhau ymarfer pwrpasol. Cyflwynwyd gweithdai gyda phartneriaid awdurdodau lleol a rhaglenni arweinyddiaeth, gan ddefnyddio ymarferion ymarferol, enghreifftiau yn y byd go iawn a chymwysiadau uniongyrchol i waith rheng flaen.

Ochr yn ochr â hyn, cyflwynodd David weithdai a gwahoddodd sgyrsiau ar AI, barn a'r broses o wneud penderfyniadau mewn gwaith cymdeithasol, gan gynnwys sesiynau sy'n archwilio sut mae offer fel ChatGPT yn cymharu â gweithwyr cymdeithasol wrth wneud rhagolygon am risg a niwed. Roedd y sesiynau hyn yn annog ymarferwyr i ymgysylltu'n feirniadol ag AI yn hytrach na dim ond ei dderbyn neu ei wrthod, gan ganolbwyntio'n gryf ar foeseg, tryloywder a dyfodol barn broffesiynol.



Creodd y gweithdai gyfleoedd ar gyfer dysgu cydfuddiannol rhwng ymchwil, addysg ac ymarfer, gan helpu i gysylltu ymchwil â realiti ymarferol gwaith cymdeithasol.



Beth yw arweinyddiaeth dda mewn gwasanaethau amddiffyn plant?

Mae'r prosiect Arweinyddiaeth mewn Amddiffyn Plant, dan arweiniad Charlotte Waits, myfyriwr PhD ethnograffig, yn archwilio sut mae arweinyddiaeth yn cael ei chyflawni mewn ymarfer amddiffyn plant bob dydd o fewn gwasanaethau plant awdurdodau lleol. Wedi'i leoli yn CASCADE ac wedi'i ariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, mae'r ymchwil yn gofyn cwestiwn canolog: sut, ble a phryd y gellir gweld arweinyddiaeth mewn gwaith cymdeithasol amddiffyn plant, a pha effaith a gaiff?



Charlotte Waits

Dechreuodd y prosiect gydag adolygiad o'r llenyddiaeth yn nodi tri dull cyferbyniol o arwain mewn gwasanaethau plant, cyn symud i waith maes ethnograffig o fewn awdurdod lleol yn Llundain. Roedd hyn yn cynnwys cysgodi uwch-arweinwyr ymarfer, arsylwi cyfarfodydd a fforymau ymarfer, ac ymgymryd â chyfweliadau ethnograffig gydag arweinwyr a rheolwyr ar draws gwasanaethau plant.

Roedd y dull ethnograffig yn caniatáu i'r ymchwil barhau i fod yn gysylltiedig ag ymarfer bob dydd, gydag arsylwadau a chyfweliadau ethnograffig yn helpu i fireinio'r hyn y mae'r astudiaeth yn canolbwyntio arno wrth i waith maes fynd rhagddo. Yn ddiweddar, cwblhawyd cyfweliadau cam olaf gyda chwe arweinydd cyfranogol ar draws pedwar awdurdod lleol i archwilio canfyddiadau rhagarweiniol a chefnogi trafodaeth am arferion arweinyddiaeth a newid sefydliadol.

Mae'r prosiect yn bwysig oherwydd bod modelau arweinyddiaeth ac ymarfer yn aml yn cael eu hyrwyddo fel ysgogwyr pwysig o welliant mewn gwasanaethau plant ond nid oes llawer o dystiolaeth empirig am sut maen nhw'n llunio ymarfer rheng flaen a'r broses o wneud penderfyniadau. Mae canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yn awgrymu y gall arweinyddiaeth amlwg, berthnasol a seiliedig ar werthoedd helpu i symud diwylliannau sefydliadol tuag at ffyrdd mwy cydweithredol o weithio sy'n canolbwyntio ar y plentyn.



Rhannwyd gwaith cynnar y prosiect â Llywodraeth Cymru. Ers hynny, cyflwynwyd canfyddiadau ethnograffig rhagarweiniol i gynulleidfaoedd academaidd ac ymarferwyr yn CASCADE, Ysgol Busnes Caerdydd, y Gynhadledd Ewropeaidd ar gyfer Ymchwil Gwaith Cymdeithasol ym Munich, Prifysgol Waikato yn Seland Newydd, a'r rhwydwaith cenedlaethol o arweinwyr ymarfer yn Oranga Tamariki, Gweinyddiaeth Plant Seland Newydd.

6. Casgliad

Nid yw eleni wedi bod heb anawsterau. Mae addysg uwch yn wynebu problemau systemig ar hyn o bryd, ac mae'r rhain yn cael effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar ein partneriaeth. Yn fwy arwyddocaol, fe gollasom ni aelod gwerthfawr o'n tîm yn annisgwyl – Dr Helen Hodges. Roedd Helen yn rhan garedig, ddoniol ac angerddol o'n partneriaeth. Canolbwyntiodd ei gwaith ar droseddau ieuenctid, gan gynnwys sawl astudiaeth ddylanwadol a phwysig. Roeddem ni, yn y ganolfan, mewn sioc ac yn drist iawn wrth glywed am ei marwolaeth. Gallwch ddarllen ei hysgrif goffa yma: https://www.cardiff.ac.uk/cy/obituaries/obituary/dr-helen-hodges. Roeddwn hefyd yn drist iawn i glywed am farwolaeth Dr Laura Bunting, a weithiodd yn agos gyda ni yn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i gefnogi'r bartneriaeth ac yr oedd ei chefnogaeth a'i her yn allweddol wrth adeiladu ein gwaith.

Bu heriau hefyd yn gysylltiedig â'n llwyddiant. Mae sefydlu canolfannau newydd, rhedeg prosiectau cymhleth, datblygu cydweithrediadau rhyngwladol a'r nifer o weithgareddau eraill y gallwch ddarllen amdanynt yn y tudalennau hyn i gyd yn cymryd amser. O ganlyniad, rydym yn gweithredu'n barhaus yn agos i'n gallu neu y tu hwnt iddo.
Ond er gwaethaf yr heriau hyn, rydym yn mynd i mewn i 2026 gydag egni a brwdfrydedd enfawr ar gyfer y dyfodol. Bob blwyddyn pan fyddaf yn gorffen un o'r adroddiadau hyn, rwy'n ceisio rhoi blas o'r hyn a allai fod yn adroddiad y flwyddyn nesaf. Wrth baratoi ar gyfer ysgrifennu hwn, rwy'n eu hailddarllen – ac rwy'n falch iawn o ddweud eu bod fel arfer wedi bod yn arwydd da o'r hyn sydd i ddod!

Felly, dyma beth rydym ni wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod. Rydym yn lansio strategaeth newydd a fydd yn canolbwyntio ein gwaith ar bedwar maes allweddol – lleihau anghydraddoldeb, cefnogi perthnasoedd cariadus, gwella ymarfer proffesiynol, a deall sut i greu newid mewn sefydliadau a systemau. Mae hwn yn gyfle i wella ein cyfathrebu, ein gwaith ymgysylltu â'r sector ac ansawdd ein hymchwil. Rydym yn cyflwyno cyfres newydd sy'n canolbwyntio ar ymarfer, lle bydd pobl â phrofiad bywyd yn rhannu'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Rydym yn bwriadu cyflwyno gwasanaeth ymgynghori newydd i'n galluogi i wneud darnau llai o waith sy'n gofyn am ymateb mwy ystwyth. A byddwn yn adeiladu ar ein partneriaethau presennol a'r canolfannau newydd yr ydym wedi'u datblygu i gynnal ymchwil arloesol sy'n anelu, fel bob tro, at wneud gwahaniaeth.

Mae'r adroddiad eleni yn rhoi arwydd o gwmpas ac ansawdd ein gwaith. Y peth mwyaf cyffrous am fod yn Gyfarwyddwr Partneriaeth CASCADE yw gweld cymaint ar draws y bartneriaeth sydd wedi ymrwymo i barhau â'r gwaith cyffrous a drafodir yn yr adroddiad hwn ac adeiladu arno.

Yr Athro Donald Forrester
Cyfarwyddwr Partneriaeth CASCADE